



Gwneud cais am Drwydded Parcio i Breswylwyr

Gall pob preswilydd wneud cais am drwydded os yw'n byw mewn stryd lle gweithredir Cynllun Trwyddedau Parcio i Breswylwyr ac os mai prif breswylfa'r ymgeisydd yw'r cyfeiriad. Gall un preswilydd wneud cais am yr holl drwyddedau sydd ar gael gyda'i gilydd, neu gall preswylwyr unigol wneud cais ar wahân. Dyrennir uchafswm o 2 drwydded sy'n benodol i gerbydau ac 1 drwydded parcio i ymwelwyr i bob eiddo cymwys. Fel arall, os nad oes angen trwyddedau sy'n benodol i gerbydau yna gellir gwneud cais am drwydded Ymwelwyr yn Unig, fodd bynnag, yn yr achos hwn ni roddir unrhyw drwyddedau sy'n benodol i gerbydau i'r eiddo.

Gallwch wneud cais am drwydded parcio i breswylwyr ar-lein ar wefan y Cyngor drwy chwilio am drwyddedau parcio.

Bydd angen y canlynol arnoch chi:

- Rhif cofrestru'r cerbyd (trwyddedau i breswylwyr yn unig)
- Cerdyn debyd/credyd dilys
- Rhif eich cyfrif Treth Gyngor fel tystiolaeth o'ch preswylfa. Gall fod angen i chi gyflwyno tystiolaeth ychwanegol o'ch preswylfa yn ôl y gofyn.
- Bydd angen cod gwe dilys i adnewyddu trwydded

Dim ond os na allwch wneud cais am drwydded ar-lein y dylech lenwi'r ffurflen hon.

Dylid dychwelyd ffurflenni cais wedi'u cwblhau i:

Gwasanaethau Parcio, Cyngor Dinas Caerdydd, Blwch SP 47, Caerdydd, CF11 1QB

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg/This form is available in English

Croesewir i chi ohebu â ni yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn ymateb yn unol â'ch dewis, ac ni fydd cyfathrebu yn Gymraeg yn achosi unrhyw oedi

Adran 1 - Manylion yr ymgeisydd

Os oes gennych drwydded parcio i breswylwyr eisoes, rhowch gyfeirnod y drwydded a'r dyddiad dod i ben yn y blwch isod. Gellir adnewyddu trwyddedau o fewn 30 diwrnod cyn y dyddiad dod i ben.

Cyfeirnod y Drwydded Dyddiad dod i ben (Os nad ydych yn gwybod y dyddiad dod i ben, gadewch y blwch yn wag)

Enw llawn deiliad y drwydded (Enw cyntaf a chyfenw)

Cyfeiriad ar gyfer y drwydded y gwneir cais amdani (Cyfeiriad post llawn. Dylai hwn fod eich prif gyfeiriad)

Prif rif ffôn (Rhif ffôn cartref/symudol)

Cyfeiriad e-bost (Opsynol)

Bydd eich trwydded yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad a nodir yn eich cais am drwydded. Ni ellir ei hanfon i unrhyw gyfeiriad arall.

Adran 2 - Gwybodaeth am y Drwydded

Math o Drwydded

Cadarnhewch fath y drwydded yr ydych yn gwneud cais amdani isod. Dim ond 1 o bob trwydded i breswylwyr ac 1 drwydded i ymwelwyr y gellir gwneud cais amdanynt fesul eiddo.

Trwydded Gyntaf i Breswylwyr - £7.50 am 12 mis (codir tâl pro-rata)

Ail Drwydded i Breswylwyr - £30.00 am 12 mis (codir tâl pro-rata)

Ymwelwyr - £30.00 am 12 mis (codir tâl pro-rata)

Ymwelwyr yn Unig – £7.50 am 12 mis yn unig. Dim ond os nad oes angen trwydded arall yn yr eiddo am y 12 mis nesaf y gellir gwneud cais am y drwydded hon.

Taliadau Pro Rata

	Trwydded Gyntaf i Breswylwyr	Ail Drwydded i Breswylwyr	Ymwelwyr
1 mis	62p	£2.50	£2.50
2 mis	£1.25	£5.00	£5.00
3 mis	£1.87	£7.50	£7.50
4 mis	£2.50	£10.00	£10.00
5 mis	£3.12	£12.50	£12.50
6 mis	£3.75	£15.00	£15.00
7 mis	£4.37	£17.50	£17.50
8 mis	£5.00	£20.00	£20.00
9 mis	£5.62	£22.50	£22.50
10 mis	£6.25	£25.00	£25.00
11 mis	£6.87	£27.50	£27.50

Dylai Sieciau ac Archebion Post gael eu gwneud yn daladwy i Gyngor Caerdydd. Nid yw Cyngor Caerdydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw arian a gollir yn y post.

Hyd y Drwydded

Cadarnhewch sawl mis (hyd at 12) y mae angen y drwydded arnoch?

Os byddwch yn peidio â byw yn yr eiddo neu os nad oes angen y drwydded arnoch mwyach, rhaid dychwelyd y drwydded i'r swyddfa i'w chanslo.

Adran 3 – Prawf

Atodwch **gopi** o un o'r canlynol fel prawf o'ch cyfeiriad:

- Bil treth gyngor
- Cytundeb tenantiaeth
- Bil trydan/dŵr/nwy
- Cyfriflen banc
- Llythyr gan gyfreithiwr sy'n cadarnhau eich bod wedi prynu eiddo

Dylai unrhyw brawf o'r cyfeiriad fod wedi'i ddyddio o fewn 3 mis i'r cais.

Cysylltu â cherbyd

Nid oes angen tystiolaeth ddogfennol o hyn ar y Cyngor mwyach, ond rhoddir rhif cofrestru cerbyd ar y drwydded cerbyd gyntaf a'r ail drwydded. Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y rhif cofrestru cywir yn cael ei nodi ar y drwydded barcio i breswylwyr. Ceidw'r Cyngor yr hawl i ofyn am ddogfennau prawf os bydd angen.

Trwydded Gyntaf i Breswylwyr (Rhif Cofrestru'r Cerbyd)

Ail Drwydded i Breswylwyr (Rhif Cofrestru'r Cerbyd)

Adran 4 - Rhestr Wirio

Sicrhewch eich bod wedi cwblhau pob rhan berthnasol o'r ffurflen, a'ch bod wedi cynnwys y canlynol gyda'ch ffurflen gais: Gall peidio â chyflwyno unrhyw un o'r isod arwain at oedi wrth brosesu'r cais.

- Prawf diweddar o'ch cyfeiriad
- Siec neu Archeb Bost i dalu
- Adran datganiad wedi'i llofnodi

Adran 5: Llofnod

Drwy lofnodi'r cais hwn rydych yn cadarnhau eich bod wedi darllen telerau ac amodau'r cynllun trwyddedau i breswylwyr ac yn cytuno iddynt. Gallwch weld y rhain ar wefan y Cyngor a gallwch eu rhoi i chi ar gais hefyd.

Llofnod deiliad y Drwydded

Dyddiad y Llofnod

Datganiad

Cyngor Caerdydd yw'r Rheolydd Data, a bydd yn prosesu eich gwybodaeth bersonol i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol yn unol ag Erthygl 6 (1) (c) y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gall yr awdurdod neu gyrff perthnasol eraill ddefnyddio'r wybodaeth dan sylw at ddibenion gorfodi, canfod twyll neu at unrhyw ddibenion cysylltiedig eraill fel y caniateir gan y gyfraith. Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli eich gwybodaeth, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor.